Gwers: Gwneud y Gwaith Tŷ

Amcanion Dysgu:
Dadansoddi gwybodaeth o dablau a graffiau.
Trafod data i ateb problem.
Ymchwilio i stereoteipiau rhyw a llunio dadleuon i'w trafod.

I ddechrau: Taflwch syniadau ar gyfer rhestr o rolau 'nodweddiadol' ar gyfer y gwahanol rywiau.	**Disgyblion** Rhoi eu syniadau ar beth yw rolau 'nodweddiadol' y gwahanol rywiau yn eu barn hwy	**Athro** Hwyluso'r rhestr ac annog y disgyblion i fod yn onest.
Prif dasg; Defnyddiwch y daflen 'Doing the Housework'. Cynhaliwch sesiwn holi ac ateb ar y data. Llwythwch y data a lluniwch graffiau (gweler y nodiadau). Defnyddiwch y poster fel ysgogiad, trefnwch ddadl dosbarth, gan roi amser i'r disgyblion ymchwilio i'w safbwynt.	**Disgyblion** Dadansoddi data i ateb cwestiynau. Llunio siartiau bar o ddata wedi'i lwytho i wneud cymariaethau pellach. Ymchwilio i'w hochr hwy o'r ddadl a llunio dadleuon.	**Athro** Cynorthwyo'r gwaith o ddadansoddi data a llunio graffiau. Cyfeirio'r disgyblion at ffynonellau addas. Penderfynu ar fformat ar gyfer y ddadl (gweler nodiadau).
Sesiwn lawn: Cynhaliwch ddadl dosbarth. Bydd y ddwy ochr yn cael cyflwyno eu safbwyntiau, ac yn cael amser i roi sylwadau i'r ochr arall.	**Disgyblion** Gwrando ar y ddadl a chyflwyno eu safbwyntiau. Ystyried safbwyntiau'r gwrthwynebwyr a llunio ymateb.	**Athro** Trefnu dadl.

Canlyniadau:
Bydd pob disgybl yn: Meddu ar syniadau ar rolau'r gwahanol rywiau. Rhoi dadansoddiad syml o ddata. Gwrando ar ddadl.
Bydd y rhan fwyaf o'r disgyblion yn: Deall stereoteipio rhwng y rhywiau. Deall a thrafod data. Cyflwyno dadleuon yn ystod y ddadl.
Bydd rhai disgyblion yn: Defnyddio data a gwybodaeth yn effeithiol i gefnogi eu safbwyntiau. Gallu gwrthwynebu/dadlau yn erbyn safbwyntiau eraill.

Adnoddau:
Mynediad i'r rhyngrwyd/taflenni gwaith 'Doing the Housework' a 'Household Chores' bwrdd gwyn/ffeil excel/poster (A3 os yw'n bosibl)

Rheolaeth yn yr Ystafell Ddosbarth:
Dosbarth cyfan/Taflu syniadau/Gwaith tîm/Mynediad eu hunain i'r rhyngrwyd

Geiriau allweddol: Data, Gwybodaeth, Penderfyniadau, Rhyw, Taenlen stereoteip, Dadl, Gwefannau	**Cysylltiadau Strategaeth CA3/CC/Cysylltiadau Traws-Gwricwlaidd:** TGCh BI7/8: Darganfod pethau a Chyfnewid a rhannu gwybodaeth Saesneg: Sa1 Siarad a Gwrando/Trafodaeth grŵp a rhyngweithio Mathemateg: MA4 Fframwaith Trin Data tudalennau 256-67

Gwybodaeth Flaenorol:
Rhywfaint o brofiad o ddadansoddi tablau/defnyddio'r we. Gallu llunio graffiau o dablau data.

Asesiad o'r Dysgu:
Trafodaeth Dosbarth/Adborth o Sesiwn Taflu Syniadau/ Trafodaeth ar Lafar/Gwerthuso Syniadau Disgyblion Eraill.

Gweithgaredd Ymestyn;
Dod o hyd i dystiolaeth i gymharu rolau'r gwahanol rywiau ar ddechrau'r 20fed ganrif â rolau heddiw.

Syniadau Gwaith Cartref:
Ysgrifennu traethawd yn cefnogi eich syniadau ar "Beth fydd rolau'r gwahanol rywiau mewn 30 o flynyddoedd yn eich barn chi?"

Nodiadau:
Llwythwch y ffeil Excel/CSV i'r disgyblion lunio graffiau. Efallai y bydd rhai disgyblion yn ei chael yn anodd trafod data. Gellir llunio graffiau â llaw. Cymharwch pa mor hir y mae dynion a merched yn ei dreulio'n gwneud gwaith tŷ, a pha ganran sy'n gwneud y gwaith tŷ. Efallai yr hoffech lwytho'r erthyglau o'r cysylltiadau cyn y wers.

Ystyriwch yn ofalus sut i drefnu eich dadl. Byddwch yn adnabod eich dosbarth ac yn gwybod sut maent yn gweithio orau. Un syniad yw bod y disgyblion yn gwneud gwaith ymchwil mewn timau o dri ac yna'n rhannu'r wybodaeth ag eraill gan ddadlau o blaid eu safbwyntiau.

Eich nodiadau/cwestiynau:

Nodiadau ar y wers/gwerthusiad

Crëwyd yr adnodd hwn gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn: www.statistics.gov.uk